



**Protocol Amlasiantaethol
ar gyfer
Offeryn Aseu Atal Hunanladdiad
(SPAT)**

**BWRDD DIOGELU
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

Fersiwn	Dyddiad Diwygio	Perchennog	Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu
Fersiwn 1	30/01/2021	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	30/01/2020	30/01/2022

Cynnwys

Tudalen 3	Cyflwyniad/Trosolwg
Tudalen 3	Y Cyd-destun Strategol
Tudalen 4	Nodau ac Amcanion
Tudalen 4	Cwmpas y Protocol
Tudalen 4	Hyfforddiant
Tudalen 5	Llywodraethu/Atebolrwydd
Tudalen 5	Protocol Rhannu Gwybodaeth
Tudalen 5	Adolygiad
Tudalen 6	Atodiad 1 - Llyfryddiaeth
Tudalen 7	Atodiad 2 - Offeryn/siart llif SPAT
Tudalen 8	Atodiad 3 - Cerdyn waled SPAT

Cyflwyniad/Trosolwg

Mae dogfennaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) yn cyfeirio at hunanladdiad fel un o'r prif achosion marwolaeth, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, ac mae'n cyfateb i tua dwywaith y nifer sy'n cael eu lladd mewn damweiniau ffordd. Mae adroddiad ystadegol a gynhyrchwyd gan y Samariaid (2018) yn nodi bod 360 o farwolaethau drwy hunanladdiad yng Nghymru dros bob grŵp oedran yn 2017, sy'n dangos cynnydd ar ystadegau'r flwyddyn flaenorol. Ymhlith pobl ifanc 15-19 oed, mae'r adroddiad yn nodi cynnydd yng nghyfradd yr hunanladdiadau ymysg pobl ifanc 15-19 oed yn 2017 o'i gymharu â'r data ar gyfer y 2 flynedd flaenorol.

Ar draws y rhanbarth bu nifer o ddigwyddiadau trasig lle bu plant a phobl ifanc farw drwy hunanladdiad. Thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg o Adolygiadau Ymarfer Plant o fewn y rhanbarth ac ar lefel genedlaethol hefyd yw'r angen am ddull cyson pan fydd plant a phobl ifanc yn ymglyfwyno gyda syniadaeth hunanladdol. Mae'r protocol ar gyfer y SPAT yn ceisio sicrhau ymateb o'r un math ar draws rhanbarth Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) pan fydd plentyn neu berson ifanc dan 18 oed yn ymglyfwyno i weithiwr proffesiynol: wedi ceisio cyflawni hunanladdiad neu'n arddangos syniadaeth hunanddinistriol.

Mewn partneriaeth rhwng Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol Hywel Dda ac Awdurdod Lleol Sir Benfro, mae Offeryn Asesu Atal Hunanladdiad a Thîm Gweithredu Atal Hunanladdiad wedi cael eu sefydlu ers 2009. Ar adeg ysgrifennu'r protocol hwn (Ionawr 2019), mae dros 600 o ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant mewn defnyddio'r SPAT. Fodd bynnag, mae awydd ar draws y rhanbarth i efelychu'r gwaith sydd wedi'i wneud yn Sir Benfro ac ymgais yw'r protocol hwn i geisio sefydlu fframwaith a fydd yn ei gwneud yn bosibl i hyn ddigwydd.

Y Cyd-destun Strategol

Yn 2017, cyhoeddwyd "Adolygiad desg o hunanladdiadau tebygol ymysg plant ac oedolion ifanc ar gyfer Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru" a ysgrifennwyd gan Dr Tom Slater, Prifysgol Caerdydd, ar ôl cael ei gomisiynu gan CYSUR. Mae argymhelliad cyntaf yr adroddiad yn ymwneud â Hyfforddiant a Chymorth ac mae'n awgrymu bod angen hyfforddi gweithwyr proffesiynol yn y sector statudol a'r trydydd sector i gefnogi pobl â syniadaeth hunanladdol. Mae'r argymhelliad hefyd yn nodi:

"Lle mae CAMHS ac AMHS yn cefnogi unigolyn, dylai gwasanaethau eraill sicrhau bod eu gwaith therapiwtig hwy yn gyson â'r cymorth sy'n cael ei ddarparu"

(Slater, 2017, t.7).

Mae datblygiad offeryn SPAT a'r hyfforddiant cysylltiedig yn gyson â nifer o ddogfennau polisi allweddol:

- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni: 2016 – 19 (Llywodraeth Cymru)
- Ymateb i Faterion Hunan-Niwed a Meddyliau Hunanladdiad ymysg Pobl Ifanc - Canllawiau i Athrawon, Gweithwyr Proffesiynol, Gwirfoddolwyr a Gwasanaethau Ieuenctid. (Llywodraeth Cymru, Medi 2019)
- Siaradwch â Mi 2 (Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2015-2020) (Llywodraeth Cymru).
- Cadernid Meddwl - Adroddiad ar y newid sylweddol sydd ei angen mewn cefnogaeth iechyd emosiynol a meddyliol i blant a phobl ifanc yng Nghymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2018).
- 'Busnes Pawb - adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhagfyr 2018).
- Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, Chwefror 2015).

Mae Ceredigion wedi bod yn treialu prosiect 'o fewn cyrraedd' CAMHS, sy'n canolbwyntio ar nodi ac ymyrryd yn gynnar, darparu cymorth i athrawon i'w helpu i ddeall materion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl a ffurfio perthynas waith fwy cynhyrchiol rhwng yr ysgol a CAMHS yn y sir. Mae'r SPAT yn ategu'r dull hwn, gan roi eglurder a chyfeiriad i blant a phobl ifanc sydd mewn argyfwng.

Nodau ac amcanion

Nod y protocol hwn yw sefydlu fframwaith diogel i gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n hunanladdol neu sydd wedi hunan-niweidio neu'n bwriadu gwneud hynny. Mae'r offeryn SPAT a'r hyfforddiant cysylltiedig yn ceisio uwchsgilio staff ac mae'n cynnig llwybr clir o gymorth fesul cam i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant/pobl ifanc o'r fath. Cyflwynir y llwybr fel siart llif sy'n weledol ac yn hawdd ei ddilyn. Mae'r wybodaeth gyswilt allweddol ar yr offeryn SPAT yn benodol i bob ardal awdurdod lleol.

Y nod gyffredinol felly yw sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad a hunan-niweidio yn cael eu cefnogi'n briodol i leihau risg a chefnogi eu lles.

Cwmpas y Protocol

Mae'r protocol yn berthnasol i bob asiantaeth yn ardal CYSUR, gan gynnwys y trydydd sector, lle mae'r staff yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc 0-18 oed. Felly, mae'r protocol yn ymdrin â phedair ardal awdurdod lleol: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, ynghyd â dwy ardal Bwrdd Iechyd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys.

Hyfforddiant

Mae darparu hyfforddiant yn elfen allweddol o broses SPAT ac ni fydd offeryn/siart llif SPAT ynghyd â cherdyn cyfarwyddyd SPAT (Atodiad 2) yn cael ei roi ond i'r rhai sydd wedi dilyn yr hyfforddiant perthnasol. Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol CAMHS sydd wedi llunio'r hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae yna nifer fechan o hyfforddwyr profiadol. Rhagwelir y bydd staff ychwanegol addas o'r Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol ynghyd â staff eraill sydd â phrofiad addas yn medru derbyn hyfforddiant er mwyn iddo gael ei ddarparu'n ehangach.

Darperir yr hyfforddiant hyd at deirgwaith y flwyddyn a'r hyd yw hanner diwrnod. Mae'r hyfforddiant yn gyson ag argymhellion y dogfennau polisi allweddol a grybwyllwyd eisoes ac mae'n ymdrin â dysgu ynghylch hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae cyfranogwyr yn derbyn tystysgrif ar ddiwedd yr hyfforddiant a gall yr hyfforddiant ffurfio rhan o fodiwl Diogelu Lefel 3. Mae cyfnod cymharol fyr yr hyfforddiant yn cydnabod na ellir rhyddhau llawer o staff allweddol sy'n gweithio gyda phlant o'u swyddi i ymgymryd â hyfforddiant mwy hirfaith.

Caiff grwpiau allweddol o staff rheng flaen sydd angen yr hyfforddiant hwn eu nodi ar lefel strategol.

Bydd yn ofynnol i gyfranogwyr ar y cwrs hyfforddi gwblhau ffurflen werthuso. Caiff y gwerthusiadau eu dadansoddi gan ddarparwyr yr hyfforddiant.

Llywodraethu/Atebolrwydd

Bydd pob awdurdod lleol yn efelychu'r strwythur a sefydlwyd yn Sir Benfro, lle mae Tîm Gweithredu Atal Hunanladdiad, yn cynnwys staff allweddol amlasiantaethol, yn cyfarfod yn chwarterol i gynllunio a gwerthuso. Mae'r grŵp hwn yn adrodd i Is-grŵp Polisi a Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Protocol Rhannu Gwybodaeth

Dylai gweithwyr proffesiynol gadw mewn cof a gweithio'n unol â Phrotocol Rhannu Gwybodaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed o fewn rhanbarth Gorllewin Cymru. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn dileu nac yn disodli'r rhwymedigaeth statudol i gyfeirio at yr Awdurdod Lleol pryd bynnag y nodir pryder.

Adolygiad

Bydd Is-grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau CYSUR yn adolygu'r protocol hwn yn flynyddol.

Atodiad 1

Llyfryddiaeth:

Donaldson, G, (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Llywodraeth Cymru

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (2019), Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) Cadernid Meddwl - Adroddiad ar y newid sylweddol sydd ei angen mewn cefnogaeth iechyd emosiynol a meddyliol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018), Busnes Pawb - adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (2008), Hunanladdiad yng Nghymru: data i gefnogi gweithredu'r cynllun gweithredu cenedlaethol i leihau hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru.

Y Samariaid (Rhagfyr 2018), *Suicide Statistics Report – latest statistics for the UK and Republic of Ireland.*

Slater, T (2017), Adolygiad desg o hunanladdiadau tebygol ymysg plant ac oedolion ifanc ar gyfer Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, Prifysgol Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2016), Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni: 2016 - 19.

Llywodraeth Cymru (2015), Siaradwch â Mi 2 - Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2015-2020.

Ymateb i Faterion Hunan-Niwed a Meddyliau Hunanladdiad ymysg Pobl Ifanc - Canllawiau i Athrawon, Gweithwyr Proffesiynol, Gwirfoddolwyr a Gwasanaethau Ieuencid. Dogfen Ganllaw rhif: 249/2019, cyhoeddwyd Medi 2019.

Atodiad 2

<p align="center">LLWYBR ATGYFEIRIO ATAL HUNANLADDIAD</p> <p align="center">OFFERYN I BLANT A PHOBL IFANC DAN 18 OED</p>					
<p align="center">YN PROFI</p> <p align="center">SYNIADAETH HUNANLADDOL</p>			<p align="center">WEDI GWEITHREDU AR</p> <p align="center">FEDDYLIAU HUNANLADDOL</p>		
<p align="center">CADWCH Y PERSON IFANC YN</p> <p align="center">DDIOGEL</p> <p align="center">CYSURWCH - PEIDIWCH Â'I ADAEL EI HUN</p>			<p align="center">999</p> <p align="center">Adran</p> <p align="center">Damweiniau ac</p> <p align="center">Achosion Brys</p>		<p align="center">Cysylltwch â'r rhieni/gofalwyr os na fydd gwneud hynny yn achosi mwy o niwed</p>
<p align="center">CYSYLLTWCH</p>					
<p align="center">Cysylltwch â'r</p> <p align="center">rhieni/gofalwyr</p> <p align="center">os na fydd</p> <p align="center">gwneud hynny</p> <p align="center">yn achosi mwy o</p> <p align="center">niwed</p>	<p align="center">Yn ystod Oriau Swyddfa 9a.m.-5p.m.</p> <p align="center">Cysylltwch â CAHMS 01267674450</p> <p align="center">Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</p> <p align="center">Sir Benfro 01437776444</p> <p align="center">Ceredigion 01545574000</p> <p align="center">Powys 01597 827666</p> <p align="center">Sir Gaerfyrddin 01554742322</p>		<p align="center">Os bydd person ifanc yn gwrthod help</p> <p align="center">ac rydych chi'n ofni am ei ddiogelwch</p> <p align="center">ffoniwch yr heddlu</p>		
			<p align="center">Peidiwch â gadael y person ifanc</p> <p align="center">ar ei ben ei hun</p>		
			<p align="center">Os bydd y person ifanc yn rhedeg i</p> <p align="center">ffwrdd ffonwch yr heddlu</p>		
<p align="center">Os oes yna bryderon diogelu eraill cysylltwch â – CAHMS – 01267674450. Sir Benfro 01437776444, Ceredigion 01545574000 Powys 01597 826246, Sir Gaerfyrddin 01554742322</p>					
<p align="center">I'W</p> <p align="center">GWNEUD</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Casglwch y ffeithiau, e.e. dull o geisio. • Yn achos gor-ddos, ceisiwch ddarganfod beth a gymerwyd a faint a threfnwch iddo fynd i mewn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys • Symudwch bob cyfrwng hunan-niwed os oes modd. • Cofnodwch y digwyddiad – y dyddiad a'r amser yn gronolegol – adroddwch y FFEITHIAU yn unig! • Ar ôl y digwyddiad gofynnwch am gymorth gan eich rheolwr llinell. 			

SUICIDE PREVENTION REFERRAL PATHWAY TOOL FOR CHILDREN & YOUNG PEOPLE UNDER 18

**EXPERIENCING
SUICIDAL IDEATION**

**HAS ACTED ON
SUICIDAL THOUGHTS**

**KEEP YOUNG PERSON SAFE
REASSURE - DO NOT LEAVE ALONE**

**999
A & E**
(ACCIDENT & EMERGENCY)

**Contact
Parents/carers
unless to do so
would cause
increased harm**

CONTACT



**Contact
Parents/carers
unless to do so
would cause
increased harm**

**During Office Hours
9am – 5pm**
**Contact CAMHS
01267674450**
SOCIAL SERVICES
Pembs 01437776444
Ceredigion 01545574000
Powys 01597 827666
Carms 01554742322

**If a young person refuses help
and you fear for their safety
phone the police**

**Do not leave the young
person alone**

**If a young person runs away
phone the police**

**If there are other safeguarding concerns contact –
CAMHS – 01267 674450. Pembrokeshire -01437776444,
Ceredigion – 01545574000 Powys –01597826246,
Carmarthenshire - 01554742322**



DO's

- Gather facts e.g means of attempt.
- In case of overdose establish what has been taken and how much and arrange Accident and Emergency admission.
- Remove any means of self-harm if possible.
- Record incident – date and time chronologically – report FACTS only!
- After the incident seek support from your line manager.



**GIG
POWYS**
Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board



**GIG
CARMARTHENSIRE**
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Atodiad 3

Cerdyn Canllawiau'r Waled

Offeryn Asesu Atal Hunanladdiad - Canllawiau

- Gofynnwch y cwestiwn “Oes arnoch chi eisiau marw/eich lladd eich hun?”
- Gofynnwch am y Cynllun - Aseswch risg y cynllun
- Bwriad - Pa mor ddifrifol yw'r meddwl? Oes yna amserlen? Ydy ef/hi wedi gweithredu ar ei feddyliau?
- Cadwch y plentyn/person ifanc yn ddiogel; peidiwch byth â gadael plentyn ar ei ben ei hun
- Dilynwch eich gweithdrefnau diogelu
- Cysylltwch â'r rhiant/gwarcheidwad os yw'n ddiogel i wneud hynny
- Am gyngor, cysylltwch â Pwynt Cyswllt Sengl CAMHS 01267 674450 9 i 5 Dydd Llun i Ddydd Gwener.
- Ar ôl 5 p.m. (Y tu allan i oriau) cysylltwch â'r meddyg teulu ar 111 neu'r Adran Ddamweiniau os ydych yn bryderus iawn.